Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 29/2012

# Barn rhanddeiliaid am amcanion Cytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector ac am y trefniadau i fonitro perfformiad seilwaith y trydydd sector.

# Adroddiad am y canfyddiadau



**Lisa Williams, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi**

Barn y tîm ymchwil a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid dyma o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Enw: Lucy Sykes

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Ffôn: 029 2082 6213

E-bost: lucy.sykes@wales.gsi.gov.uk

Enw: Wendy Thomas

Llywodraeth Leol a Chymunedau

Llywodraeth Cymru

Ffôn: 0300 062 8295

E-bost: wendy.thomas2@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2012

ISBN 978 0 7504 7742 0

© Hawlfraint y Goron 2012

## Tabl Cynnwys


Cyflwyniad ac Amcanion …………………………………………………… 3

Methodoleg………………………………………………………………… 3

Y Prif Ganfyddiadau ……………………………………………………… 4

Monitro perfformiad………………………………………………............. 12

Crynodeb ac Argymhellion ……………………………………………….. 13

Atodiad A – Crynodeb o'r amcanion a'r newidiadau sydd wedi'u hawgrymu…... 15

Atodiad B – Canllaw Cyf-weld…………………………………………… 17

Atodiad C – Tasg cyn y Cyfweliad…………………………………….. 20

**Barn rhanddeiliaid am amcanion Cytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector ac am y trefniadau i fonitro perfformiad seilwaith y trydydd sector.**
**Adroddiad TERFYNOL am y canfyddiadau**

## 1. Cyflwyniad ac Amcanion

Mae Cytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector yn darparu cyllid o £5,515,792 (2012/13) oddi wrth Lywodraeth Cymru i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Pwrpas y cyllid hwn yw caniatáu i WCVA, cynghorau gwirfoddol sirol a chanolfannau gwirfoddol gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer cynorthwyo'r trydydd sector a hybu gwaith gwirfoddol yng Nghymru.

Bydd y Cytundeb Partneriaeth presennol yn dod i ben ym Mawrth 2013 ac, er mwyn paratoi ar gyfer datblygiadau ar ôl hynny, roedd yn ofynnol cynnal adolygiad o'r trefniadau partneriaeth presennol.

Prif bwrpas yr adolygiad oedd darparu:

- asesiad o ddibenion gwreiddiol y grant sydd wedi'u disgrifio yn adran 11 o'r telerau contract i weld a oes angen eu diweddaru;
- arfarniad o'r trefniadau monitro presennol.

Cynhaliwyd yr adolygiad gan Uwch-swyddog Ymchwil yn adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Mae'r adolygiad yn ystyried materion ansoddol. Mae'n cynnwys barn sefydliadau seilwaith tebyg mewn rhannau eraill o'r DU, sefydliadau sy'n derbyn arian yn uniongyrchol o dan y cytundeb partneriaeth a nifer bach o sefydliadau nad ydynt yn derbyn cyllid. Mae'r canfyddiadau'n rhai ansoddol o'u hanfod ac yn taflu goleuni ar newidiadau y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno eu gwneud.

Mae adolygiad wedi'i gynnal hefyd o drefniadau ariannu rhwng Llywodraeth Cymru a WCVA ond mae'n bwysig nodi bod yr adolygiad hwnnw'n hollol ar wahân i'r gwaith hwn, sy'n ymwneud yn gyfan gwbl â chasglu barn rhanddeiliaid am berthnasedd yr amcanion sydd yng Nghytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector ac am y trefniadau i fonitro perfformiad seilwaith y trydydd sector.

## 2. Methodoleg

Oherwydd yr amseriad a'r adnoddau a oedd ar gael, nid oedd yn bosibl cynnal gwerthusiad llawn o'r cytundeb partneriaeth. Cynhaliwyd cyfres o gyfweliadau ansoddol, lled-strwythuredig â rhanddeiliaid allweddol yn y trydydd sector fel a ganlyn:

4 sefydliad trosfwaol yng Nghymru a'r DU
4 sefydliad sy'n derbyn arian oddi wrth WCVA
4 sefydliad NAD YDYNT yn derbyn arian oddi wrth WCVA
5 cyngor gwirfoddol sirol

Cynhaliwyd y cyfweliadau dros y ffôn gan mwyaf, ac roedd dau wedi'u cynnal wyneb yn wyneb. Roedd y cyfweliadau rhwng 30 a 60 munud o hyd a chawsant eu recordio i ddibenion dadansoddi. Defnyddiodd yr ymchwilydd ganllaw trafod i ysgogi ymateb yn y cyfweliadau (gweler atodiad B). Cyn cynnal y cyfweliadau, anfonwyd dwy dasg ragarweiniol at y rhai a oedd i'w cyf-weld i hwyluso'r drafodaeth (gweler atodiad C).

## 3. Y Prif Ganfyddiadau

### 3.1 Barn am y Cytundeb Partneriaeth

Mae rhanddeiliaid yn credu bod Cytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector yn ffordd ddefnyddiol o bennu a diffinio'r gwahanol rolau ar bob lefel yn seilwaith y trydydd sector. Drwy ddiffinio'r rolau ar bob lefel, mae hefyd yn dangos pa lefel sy'n fwyaf priodol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau craidd sydd wedi'u nodi yn y cytundeb partneriaeth. Mae hefyd yn cyfrannu at gynnydd canfyddedig yn effeithiolrwydd y sector gan fod dyblygu diangen ar wasanaethau a chynhyrchion yn cael ei osgoi.

Er bod consensws cryf ynghylch gwerth y cytundeb partneriaeth, roedd y rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y cyfweliadau yn gallu cynnig rhai awgrymiadau am ddiwygiadau neu ychwanegiadau ar gyfer cytundeb partneriaeth newydd.

Nodwyd mai un maes y gellid ei gynnwys yw diffiniad cliriach o'r trydydd sector a'r ffordd y mae'n cydweithio. Mae nifer o sefydliadau trosfwaol yng Nghymru e.e. WCVA, Plant yng Nghymru, Anabledd Cymru a bydd hyn yn arwain weithiau at sefyllfa lle mae'r sector yn siarad â mwy nag un llais. Felly roeddent yn teimlo bod angen mwy o eglurder ynghylch cwmpas 'seilwaith y trydydd sector' drwy gydnabod yn gliriach natur eang ac amrywiol y sector a'r ffordd y mae'r gwahanol sefydliadau yn cyd-dynnu ac yn cydweithio. Mae'n ymddangos bod dryswch ymysg sefydliadau y tu allan i'r seilwaith ynghylch lle mae'r ffiniau rhwng gwahanol sefydliadau trosfwaol.[1]

Roedd nifer o'r cynghorau gwirfoddol sirol a gyfwelwyd yn teimlo bod angen mwy o gydnabyddiaeth i'r agenda ranbarthol yn y cytundeb partneriaeth newydd. Maent yn gweithio fwyfwy ar lefel ranbarthol a dylai'r cytundeb partneriaeth adlewyrchu hynny.

Meysydd eraill yr oedd rhanddeiliaid yn teimlo y dylid eu cynnwys yn y cytundeb partneriaeth oedd:

- Cydnabyddiaeth i'r pwysau ar adnoddau ar gyfer cyflawni'r amcanion a chyflenwi'r gwasanaethau craidd sydd wedi'u nodi yn y cytundeb partneriaeth ac y dylid cynnwys disgwyliadau realistig yn y cytundeb o'r hyn y gellir ei gyflawni.
- Cynnwys darpariaeth ar gyfer partneriaethau: bod sefydliadau'n cael eu hannog i weithio mewn partneriaeth â'i gilydd a bod rhan bwysig i'w chwarae gan gynghorau gwirfoddol sirol a WCVA wrth hwyluso gwaith mewn partneriaeth.[2]
- Helpu mewn gwaith â'r sector preifat, yn enwedig o ran datblygu mentrau cymdeithasol.

### 3.2 Pa mor Berthnasol yw Amcanion y Cytundeb Partneriaeth

Gofynnwyd am adborth gan randdeiliaid am amcanion y cytundeb partneriaeth ac a oeddent yn teimlo eu bod yn berthnasol ac yn addas i'w diben o hyd. Mae manylion eu hymateb i bob amcan wedi'u nodi isod.

---

[1] Mae Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn fforwm lle y gall y sefydliadau trosfwaol fynegi barn ar y cyd am faterion strategol bwysig. Ar sail y sampl gyfyngedig, mae'n ymddangos bod lle i feithrin mwy o ymwybyddiaeth o rôl aelodau unigol Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Dechreuwyd ethol swyddogion newydd i'r Cyngor ym mis Mai eleni a bydd cyfle felly i aelodau sydd newydd eu dewis godi eu proffil yn unigol a chyda'i gilydd drwy WCVA. Mae'r cytundeb partneriaeth presennol yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau ymgynghori â'u sector – mae'r angen am y gofyniad hwn wedi'i ategu gan yr adolygiad.

[2] Mae'r cytundeb partneriaeth presennol yn disgrifio rolau a chyfrifoldebau WCVA, cynghorau gwirfoddol sirol a chanolfannau gwirfoddol ym manylebau'r gwasanaethau. Mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu y dylid ehangu cwmpas yr amcan presennol "to assist third sector providers to adopt collaborative approaches to bidding to deliver services" i ddarllen "to assist third sector providers to adopt collaborative approach wherever appropriate".

Mae'n galonogol bod y rhan fwyaf o'r amcanion yn cael eu hystyried yn berthnasol iawn i nodau'r sector, ac mai dim ond diwygiadau bach sydd wedi'u hawgrymu.

### 3.2.1 Rôl WCVA

| Hybu a hyrwyddo gwaith gan grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol |
|---|

Roedd pob un o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn credu bod yr amcan hwn yn berthnasol iawn ac roedd yn cael ei weld yn rhan hanfodol o rôl WCVA. Roedd yn werthfawr iawn i broffil y sector fod ganddo sefydliad trosfwaol a oedd yn gweithio ar lefel genedlaethol ac a oedd yn cael mynediad at Weinidogion a swyddogion llywodraeth.

*Mae honno'n rôl bwysig. Mae'n anodd weithiau i sefydliadau'r trydydd sector gael yr adnoddau y mae eu hangen i'w hyrwyddo eu hunain ymhlith sefydliadau ar wahanol lefelau. Pan fydd angen trafod rhywbeth yn gyffredinol neu yng nghyd-destun y trydydd sector, mae'n ddefnyddiol iawn bod WCVA yn gallu cyd-drefnu hynny a chynnig y safbwynt hwnnw. (Sefydliad trosfwaol)*

Nododd cynrychiolwyr cynghorau gwirfoddol sirol eu bod yn gwneud mwy o waith ar lefel ranbarthol a theimlent y gellid cydnabod hyn yn y Cytundeb Partneriaeth newydd. Roeddent hefyd yn teimlo bod y cyfeiriad at y lefel leol yn yr amcan hwn yn ymwneud â'u rôl nhw ac nid rôl WCVA felly roeddent yn awgrymu ei ddileu.

| Dehongli a chyfleu barn a phryderon y sector gwirfoddol |
|---|

Roedd hon yn rôl allweddol i'w chyflawni gan WCVA ym marn yr holl randdeiliaid ac, yn gyffredinol, roeddent yn credu ei fod yn gwneud hyn yn dda. Roedd cydnabyddiaeth ei bod yn anodd cynrychioli barn y sector cyfan, ond ei bod yn bwysig cael sefydliad trosfwaol a allai edrych ar anghenion y sector o safbwynt Cymru gyfan a'u cyfleu i Lywodraeth Cymru.

*Mae hynny'n hanfodol. Nid yw'n rôl hawdd; mae llawer o farnau gwahanol gan y trydydd sector, ond mae WCVA yn gwneud gwaith da o ran dehongli'r barnau hynny. (Sefydliad trosfwaol)*

*Mae honno'n rôl hanfodol o hyd i WCVA gan ei fod yn gweld y darlun ledled Cymru. Gallem fod â barn am bryderon y sector gwirfoddol yn (enw awdurdod lleol), ond wedyn mae angen gweld y sefyllfa o safbwynt Cymru gyfan. (Cyngor gwirfoddol sirol)*

Cododd rhai rhanddeiliaid gwestiynau am annibyniaeth WCVA wrth nodi y byddai WCVA mewn sefyllfa anodd pe byddai'n beirniadu'r union lywodraeth a oedd yn darparu cyllid iddo. Felly dylid pwysleisio annibyniaeth WCVA yn y cytundeb partneriaeth.

*…..rôl anodd yw mynegi barn a phryderon y trydydd sector a chael eich ariannu gan Lywodraeth Cymru yr un pryd...pa mor hawdd iddo yw cyfleu barn am bryderon y sector gwirfoddol i Lywodraeth Cymru? Mae'n amcan perthnasol o hyd ond mae angen cydnabyddiaeth yn y cytundeb fod rhaid i WCVA gael annibyniaeth a thryloywder sylweddol fel na fydd i bob pwrpas yn gangen bropaganda i Lywodraeth Cymru. (Sefydliad sy'n derbyn arian oddi wrth WCVA)*

| Hybu a hyrwyddo gwaith gwirfoddol a budd gwirfoddolwyr |
|---|

Teimlwyd bod agweddau ar yr amcan hwn yn fwy perthnasol ar lefel leol yn hytrach nag un genedlaethol. Roedd ymatebwyr yn cydnabod bod gwirfoddolwyr yn chwarae

rhan hanfodol a bod y sector yn dibynnu arnynt.  Credwyd ei bod yn bwysig hyrwyddo hyn ar lefel genedlaethol, ond teimlwyd bod cefnogi gwirfoddolwyr yn fwy perthnasol ar lefel leol.  Yn yr un modd, roedd rhai rhanddeiliaid yn credu ei bod yn fwy priodol i sefydliadau lleol hyrwyddo buddiannau gwirfoddolwyr.  Geiriad gwahanol a awgrymwyd ar gyfer yr amcan hwn oedd 'Hyrwyddo ac argymell gwirfoddoli'.

*…mae cymorth yn cael ei gynnig ar lefel fwy lleol.* *(Sefydliad sy'n derbyn arian)*

| Hyrwyddo cydlyniant a chynhwysiant cymunedol, a datblygu cyfalaf cymdeithasol |
|---|

Roedd llai o gonsensws ar yr amcan hwn ymysg y rhanddeiliaid a gyfwelwyd. Teimlai rhai ei fod yn berthnasol iawn, tra oedd eraill yn teimlo bod hyn yn digwydd yn amlach ar lefel leol yn hytrach na lefel genedlaethol ac y dylai'r cytundeb partneriaeth adlewyrchu hyn.  Ar y cyfan, fodd bynnag, credwyd bod yr amcan hwn yn berthnasol o hyd a barnwyd ei bod yn bwysig bod hyn yn cael ei hyrwyddo ar lefel genedlaethol.  Fodd bynnag, gellid ystyried bod hwn yn ganlyniad yn hytrach nag amcan.  Nodwyd *'na fyddech yn cael y tri pheth hyn os nad oedd y trydydd sector yn bod'* (*Sefydliad trosfwaol*) a bod *'y rhain yn ganlyniadau yn sgîl cyflawni'r amcanion eraill'* (*Sefydliad trosfwaol*).

| Datblygu a hybu mentrau newydd, yn enwedig mewn cysylltiad â'r blaenoriaethau yn *Cymdeithas Sifil, Gofod Sifil* |
|---|

Roedd bron pob un o'r rhanddeiliaid yn credu bod datblygu a hybu mentrau newydd yn berthnasol iawn.

*'Datblygu a hybu mentrau newydd? Ar bob cyfrif.  Mae angen i'r trydydd sector fod yn amrywiol, gan gwmpasu ystod eang o sefydliadau.  Gallwn gydweithio'n well ac mewn ffyrdd newydd a dim ond y rheini sydd â golwg ehangach ar y sector sy'n gallu datblygu'r ffyrdd hynny o weithio.  Mae'n hollol gywir. Dyna sut y gall y sector oroesi.'* *(Sefydliad sy'n derbyn arian oddi wrth WCVA)*

Er hynny, teimlwyd bod y cyfeiriad at *Cymdeithas Sifil, Gofod Sifil* yn llai perthnasol, a chyfaddefodd nifer o randdeiliaid nad oeddent yn gyfarwydd ag ef.

| Cynnal a gwella perfformiad ac effeithiolrwydd |
|---|

Credwyd bod yr amcan hwn yn hollbwysig ac y dylai fod yn amcan i bob sefydliad. Fodd bynnag, gellid bod yn fwy eglur ynghylch perfformiad ac effeithiolrwydd pwy sydd dan sylw, a chydnabod hefyd y rhan y gallai WCVA ei chwarae wrth helpu sefydliadau eraill i gyflawni'r amcan hwn.

### 3.2.2 Rôl Cynghorau Gwirfoddol Sirol

| Darparu gwasanaethau cymorth i sefydliadau lleol (gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ynghylch ariannu, gwasanaethau ymarferol, gwasanaethau hyfforddi, cyngor sefydliadol) |
|---|

Roedd yr holl randdeiliaid a deimlai eu bod yn gallu datgan barn am rôl cynghorau gwirfoddol sirol yn credu bod hon yn rôl hanfodol iddynt, yn enwedig o ran darparu'r gwasanaethau hyn i sefydliadau lleol, bach sydd heb seilwaith nac adnoddau digonol i ddarparu'r gwasanaethau hyn eu hunain.  Awgrymwyd diweddaru rhai o'r enghreifftiau i adlewyrchu'r galw cynyddol am gyngor ynghylch caffael a chomisiynu.

Nododd rhai sefydliadau trosfwaol fod anghysondeb o ran ansawdd a lefel ganfyddedig y cymorth y mae cynghorau gwirfoddol sirol yn ei roi i sefydliadau lleol, gan awgrymu y gallai sefydliadau llai ledled Cymru gael eu trin yn gyfartal drwy gynnwys gwybodaeth gliriach am natur y cymorth sydd i'w ddarparu:

*Rydym wedi sylwi bod ystod y cymorth yn amrywio. Mae rhai cynghorau gwirfoddol sirol yn barod i ysgrifennu adroddiadau ar ran sefydliadau gwirfoddol lleol; bydd rhai'n darparu cyngor yn unig a'u cyfeirio at wefannau perthnasol. Beth mae'n ei olygu? Pa mor bell y mae'n mynd? Mae'n cael ei ddehongli a'i gyflawni'n wahanol gan wahanol gynghorau gwirfoddol sirol.* *(Sefydliad trosfwaol)*

| Adnabod pryderon a buddiannau cyffredin |
|---|

Credwyd bod yr amcan hwn yn berthnasol iawn a'i bod yn rôl bwysig i'w chyflawni gan y cynghorau gwirfoddol sirol. Unwaith eto, nodwyd yr agwedd ranbarthol ar rôl y cyngor gwirfoddol sirol mewn cysylltiad â'r amcan hwn a pha mor bwysig yw hi i gynghorau gwirfoddol sirol gydweithio i bennu themâu cyffredin ar draws rhanbarthau yn ogystal ag oddi mewn i ardal eu hawdurdod lleol eu hunain.

| Cynrychioli'r sector lleol a chyfleu ei bryderon i eraill |
|---|

Ystyriwyd bod hon yn rôl werthfawr i'w chyflawni gan gynghorau gwirfoddol sirol, er bod yr heriau sy'n codi wrth gyfleu barn sector mor amrywiol wedi'u nodi (yn yr un modd â'r amcan tebyg ar gyfer WCVA – dehongli a chyfleu barn y trydydd sector). Felly awgrymodd rhai y gellid defnyddio'r un amcan ar gyfer cynghorau gwirfoddol sirol, ond ar lefel ranbarthol/lleol. Mae'n ymddangos bod cynghorau gwirfoddol sirol yn annog eu haelodau'n amlach i gynrychioli'r sector ar rai pwyllgorau / cyrff wrth i'w hadnoddau eu hunain gael eu hymestyn fwyfwy.

*Mae'r sylw i'r maes hwn yn brin iawn a dylai fod yn fwy amlwg. Ein rôl ni yw cael cynrychiolwyr sy'n cynrychioli'r sector ei hun, sydd wedi'u hyfforddi, sy'n deall beth yw eu rôl ac yn deall nad ydynt yn mynd yno i gynrychioli eu sefydliad eu hunain. Wedyn byddant yn cael cyfle i roi adborth am y cyfarfodydd, a chasglu barn am faterion penodol sy'n codi. Mae'n bosibl nad yw pobl yn sylweddoli cymaint o waith yr ydym yn ei wneud wrth gynrychioli'r sector.* *(Cyngor gwirfoddol sirol)*

| Sefydlu a chynnal cysylltiadau ffurfiol rhwng y sector gwirfoddol, yr awdurdod lleol, y GIG a chyrff eraill |
|---|

Gwelwyd bod hyn yn rôl gynyddol bwysig i'r cynghorau gwirfoddol sirol, yn enwedig o ystyried y newidiadau a gafwyd yn y blynyddoedd diwethaf a'r ddibyniaeth gynyddol ar y trydydd sector i gyflenwi gwasanaethau allweddol i'r cyhoedd. Awgrymodd un ymatebydd y dylid ychwanegu 'gwella cysylltiadau ffurfiol' at yr amcan hwn. Er bod hyn yn cael ei weld yn rôl hanfodol i'r cynghorau gwirfoddol sirol, nododd rhai rhanddeiliaid fod hyn yn rhoi pwysau ar eu hadnoddau a bod cyfyngiadau ar yr hyn y gallant ei gyflawni a bod angen cydnabod hyn.

*Ni fydd ganddynt ddigon o adnoddau bob amser i allu bod yn gynrychiolydd ar bob un o'r grwpiau statudol. Mae eu diffyg capasiti yn cyfyngu eu gallu i gynrychioli a mynd â'r maen i'r wal ar ran y trydydd sector. Mae angen ystyried o ddifrif beth sy'n bosibl fel na fyddwn yn byw mewn gwlad breuddwydion gan feddwl bod modd i gyngor gwirfoddol sirol bach weithredu mewn partneriaeth gyfartal â'r Bwrdd Iechyd Lleol sydd â 200 o bobl i'w helpu. Mae'n rôl briodol i gynghorau gwirfoddol sirol, ond mae angen i ni fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau arni. Mae'n fater sy'n peri pryder i ni.* *(Sefydliad trosfwaol)*

*Mae'n golygu bod y ddwy ochr yn rhoi gwybod am y pryderon sydd wedi'u nodi. Ni allwch fynd yn erbyn yr awdurdod lleol ac eich pen eich hun. Mae'n golygu cynnal cysylltiadau ffurfiol ond hefyd creu cydbwysedd rhwng y wybodaeth a'r pŵer sydd ar y ddwy ochr. (Sefydliad sy'n derbyn arian oddi wrth WCVA)*

| Helpu i sefydlu gwasanaethau a mentrau newydd yn y sector gwirfoddol |
|---|

Yn yr un modd â'r amcanion blaenorol, barnwyd bod hon yn rôl hanfodol i gynghorau gwirfoddol sirol. Mae'r gallu i gynorthwyo sefydliadau wrth iddynt sefydlu mentrau newydd yn wasanaeth gwerthfawr, fel y mae eu gallu i gael trosolwg ar y sector ac adnabod bylchau ac osgoi dyblygu ar waith. Nodwyd bod angen cynnwys yr amcan o hybu partneriaethau a chydweithio yn y Cytundeb Partneriaeth wrth i'r galw am hyn gynyddu.

*Ie, ond nid hynny'n unig. Rwy'n credu bod angen iddynt edrych ar hynny yn y sefyllfa bresennol. Dylid cynnwys rhywbeth am annog sefydliadau i gyflenwi gwasanaethau ar y cyd, nid y sector gwirfoddol yn unig. Yn yr hinsawdd bresennol, mae llawer mwy o alw am helpu'r sector i gydweithio ag eraill. Datblygu gwasanaethau newydd cydweithredol, nid yn y trydydd sector yn unig ond ar y cyd. (Cyngor gwirfoddol sirol)*

*Byddwn yn sicr yn cynnwys partneriaethau. Bydd y gallu i sefydlu gwasanaethau newydd yn y sector yn dibynnu ar gyllid. Gellid cynnwys partneriaethau o dan bennawd mentrau ond rwy'n credu y dylid enwi partneriaethau'n benodol. Dim ond drwy fod â gwybodaeth leol ac edrych ar y sefyllfa leol yn ei chyfanrwydd y gallant roi cyngor ynghylch rhannu adnoddau, arbenigedd etc. Byddai'n ddefnyddiol cael rhywun yn y cyngor gwirfoddol sirol sy'n gallu datblygu partneriaethau a busnesau. (Sefydliad sy'n derbyn arian oddi wrth WCVA)*

| Cyrraedd safonau sefydliadol |
|---|

Er bod cydnabyddiaeth ei bod yn bwysig cael safonau a chydymffurfio â nhw, teimlwyd nad oedd yr amcan hwn yn ddigon clir. Gofynnwyd a oedd yn golygu mabwysiadu polisïau sefydliadol priodol neu a oedd yn ymwneud â pherfformiad. Nid oedd yn glir ychwaith a oedd hyn yn ymwneud â'r cynghorau gwirfoddol sirol eu hunain neu'r sefydliadau yr oeddent yn eu cynorthwyo. Felly mae angen gwneud yr amcan hwn yn fwy eglur.

### 3.2.3 Rôl Canolfannau Gwirfoddol

| Rhoi cymorth i ddatblygu a hyrwyddo amrywiaeth o gyfleoedd i wirfoddoli sydd o ansawdd da |
|---|

Barnwyd bod hwn yn amcan perthnasol a phwysig iawn i'r canolfannau gwirfoddol a theimlwyd eu bod yn gwneud hyn yn dda ar y cyfan. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig iddynt fod yn gyfleoedd gwirfoddoli 'o ansawdd da'. Nododd rhai cynghorau gwirfoddol sirol y byddent yn hoffi gwneud mwy o'r gwaith hwn, ond nad oedd digon o adnoddau i wneud cymaint ag yr hoffent ei wneud, a hefyd fod y galw am gyfleoedd i wirfoddoli yn fwy na'r nifer o gyfleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd.

| Darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gwirfoddolwr sydd ar gael i bawb i'r un graddau |
|---|

Nododd ymatebwyr fod hwn yn amcan perthnasol a phwysig arall i ganolfannau gwirfoddol, er bod rhai wedi nodi bod heriau'n gysylltiedig â hyn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig mawr ac ymhlith pobl sydd ag anableddau, lle y gallai'r cyfleoedd i

wirfoddoli fod yn gyfyngedig. Felly awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen cynnwys ‘hygyrchedd’ cyfleoedd i wirfoddoli yn yr amcan hwn.

| Darparu gwasanaethau sy’n effeithlon, yn ddefnyddiol ac yn cynnig gwybodaeth |
|---|

Roedd pawb yn credu bod yr amcan hwn yn amlwg.

| Datblygu a chynnal safonau arferion da |
|---|

Credwyd bod hyn yn amcan pwysig er mwyn cynnal safonau ar draws y trydydd sector a hefyd er mwyn darparu cyfleoedd gwirfoddoli perthnasol o ansawdd da. Teimlai rhai fod hon yn rôl i gynghorau gwirfoddol sirol gan dynnu sylw at anawsterau a allai godi ynghylch rhannu arferion da â sefydliadau eraill y byddent yn cystadlu â nhw i ddarparu gwasanaethau’n lleol.

| Monitro a chynnal adolygiad blynyddol o’u gwasanaethau. |
|---|

Barnwyd bod yr amcan olaf hwn yn bwysig er mwyn cynnal safonau ar draws y sector. Nododd rhai ymatebwyr fod adolygiadau chwarterol yn cael eu cynnal hefyd.

### 3.3 Barn am gyflenwi gwasanaethau craidd[3]

Gofynnwyd i ymatebwyr ystyried pwysigrwydd ac effeithiolrwydd naw gwasanaeth craidd sy’n cael eu cyflenwi drwy seilwaith y trydydd sector.

Mae’n galonogol bod y gwasanaethau craidd a enwyd i gyd yn cael eu hystyried yn bwysig a bod teimlad cyffredinol eu bod yn cael eu cyflenwi’n effeithiol. Mae hyn yn dangos bod seilwaith y trydydd sector yn cyflenwi gwasanaethau yn y meysydd y mae’r sector yn gofyn amdanynt a’i fod yn gwneud hyn yn dda ar y cyfan.

| Adnabod anghenion cyfnewidiol y sector |
|---|

Roedd nifer mawr o ymatebwyr yn credu bod hyn yn agwedd bwysig ar rôl y seilwaith gan ei bod yn bosibl adnabod yr anghenion hyn yn lleol drwy’r canolfannau gwirfoddol a chyngorau gwirfoddol sirol ac wedyn yn genedlaethol gan WCVA. Mae cynghorau gwirfoddol sirol yn ei ystyried yn ‘rhywbeth yr ydym yn ei wneud beth bynnag’. Pe na byddent yn deall anghenion y sector, ni fyddai’r cynghorau gwirfoddol sirol a WCVA yn gyrff cynrychiadol effeithiol, ond credir eu bod yn gwneud hyn yn dda at ei gilydd.

Mae hefyd yn werth nodi nad yw’r anghenion cyfnewidiol hynny’n cael eu sbarduno gan y sector ei hun o reidrwydd. Bydd ffactorau allanol yn newid anghenion y sector hefyd e.e. gan fod defnydd cynyddol o brosesau caffael a thendro ar gyfer contractau i gyflenwi gwasanaethau lleol allweddol, rhaid i’r sector ymateb i’r newid hwn gan ei fod yn effeithio ar natur y cyngor a’r cymorth y mae ar sefydliadau eu hangen o fewn y seilwaith.

[3] Gofynnwyd i randdeiliaid roi sgôr am y naw gwasanaeth craidd sy’n cael eu darparu gan seilwaith y trydydd sector ar sail eu pwysigrwydd a’u heffeithiolrwydd, lle’r oedd 1 yn golygu ‘ddim yn bwysig iawn’ neu ‘heb ei gyflenwi’n effeithiol’ a 10 yn golygu ‘pwysig iawn’ ac ‘wedi’i gyflenwi’n effeithiol iawn’. Roedd sgorau am bwysigrwydd yn uwch gan mwyaf, ac roedd ymatebwyr yn amharod at ei gilydd i roi sgôr o 10 am effeithiolrwydd wrth gyflenwi gan eu bod yn credu bod lle i wella bob amser. Pwrpas y cwestiwn hwn oedd pennu blaenoriaethau priodol i’r seilwaith ac adnabod unrhyw feysydd y gallai fod angen eu gwella. Dylid nodi hefyd mai pwrpas gofyn am sgorau oedd hybu trafodaeth ac nad yw’r sgorau’n ddibynadwy’n ystadegol am fod y sampl a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil ansoddol yn fach, felly nid ydynt wedi’u cynnwys yn yr adroddiad.

## Gwasanaethau gwybodaeth (yn cynnwys lledaenu gwybodaeth)

Credwyd bod y gwasanaethau gwybodaeth sy'n cael eu darparu gan y seilwaith yn wasanaeth hanfodol, yn enwedig i sefydliadau llai ac i'r gwirfoddolwyr eu hunain. Ar y cyfan, mae'n ymddangos bod y seilwaith yn darparu gwasanaethau gwybodaeth o ansawdd da i'w aelodau. Er hynny, nodwyd rhai meysydd i'w gwella: symleiddio'r wybodaeth a ddarperir fel bod aelodau'n cael y wybodaeth sy'n fwyaf perthnasol iddynt; penawdau cliriach ar gylchlythyrau fel ei bod yn haws i aelodau weld pa wybodaeth sy'n fwyaf perthnasol iddynt; nid yw fformat cylchlythyrau wedi newid ers blynyddoedd; a defnyddio technoleg gyfathrebu fodern yn well. Teimlwyd bod lefelau uchel y galw a phrinder adnoddau'n effeithio ar effeithiolrwydd y gwasanaeth craidd hwn.

## Ymateb i ymgyngoriadau

Yn gyffredinol, ystyriwyd bod ymateb i ymgyngoriadau'n llai pwysig na'r gwasanaethau eraill sy'n cael eu darparu gan y seilwaith. Fodd bynnag, byddai testun yr ymgynghoriad yn ffactor pwysig wrth ystyried a ddylai'r sector ymateb. Fel y nododd un rhanddeiliad: *'Weithiau byddwn yn rhoi sgôr o 10 (h.y. pwysig iawn), ar adegau eraill bydd yn llai pwysig. Mae'n dibynnu ar destun yr ymgynghoriad.'* (*Sefydliad nad yw'n derbyn arian oddi wrth WCVA*).

Codwyd cwestiynau ynghylch pa mor gynrychiadol o farn y sector y byddai ymateb gan gynghorau gwirfoddol sirol neu WCVA gan fod rhai sefydliadau'n fwy tebygol ac yn fwy galluog i ymateb:

*Y perygl yw y bydd yr un rhai'n ymateb bob tro. Byddant yn ymateb gyda WCVA ac mae'n bosibl nad hynny fydd barn y trydydd sector, ac mae'r sector hwnnw'n amrywiol iawn. Mae'n anodd adlewyrchu barn pawb. (Sefydliad trosfwaol)*

Nodwyd hefyd fod heriau'n codi ynghylch ymateb, yn enwedig i gynghorau gwirfoddol sirol, oherwydd prinder adnoddau:

*Mae gwahaniaeth rhwng beth y gallwn ei wneud yn lleol ac yn genedlaethol. Mae adnoddau gwych ar gael i WCVA i wneud hyn. Yn aml, byddwn yn ategu ymateb WCVA os yw'n adlewyrchu ein barn ni. Gallem wneud hyn yn fwy effeithiol yn lleol. Mae angen i ni gyfleu ymatebion gan sefydliadau unigol yn well, yn hytrach na chynrychioli'r sector yn unig. Nid oes gennym ddigon o adnoddau i wneud hyn cystal ag y byddem yn hoffi. (Cyngor gwirfoddol sirol)*

Mater arall a godwyd ynghylch ymgyngoriadau oedd y diffyg adborth i ymatebion a'r canfyddiad nad yw ymatebion yn cael fawr o effaith ar y broses o ddatblygu a gweithredu polisïau. Hwn oedd y rheswm a roddodd un sefydliad trosfwaol am beidio ag ymateb i ymgyngoriadau bellach.

## Cyfleu barn y sector

Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn credu mai hon oedd y rôl bwysicaf i'w chyflawni gan seilwaith y trydydd sector.

Cyfeiriodd rhanddeiliaid at yr heriau y mae'r seilwaith yn eu hwynebu wrth gynrychioli barn sector mor amrywiol, a chydnabod hefyd fod sefydliadau trosfwaol eraill yn y trydydd sector yng Nghymru e.e. Plant yng Nghymru ac Anabledd Cymru ac y gallai hyn arwain at rywfaint o ddyblygu neu gyflwyno nifer o safbwyntiau ar ran y sector i lywodraeth.

Nodwyd hefyd fod gallu WCVA i gynrychioli barn y sector yn annibynnol, wrth dderbyn arian oddi wrth Lywodraeth Cymru, yn rhywbeth a allai fod yn her wrth gyflenwi'r gwasanaeth craidd hwn.

*Mae'r sector mor fawr ac amrywiol. Rwy'n siŵr ei fod yn gwneud ei orau glas, ond mae'n anodd. Mae'n hollbwysig bod llais gan y sector. Ond mae cryn nifer o leisiau ac nid wyf yn gwybod a ydynt yn dweud yr un peth. Rhaid i rywun sicrhau bod llais gan y sector mewn llywodraeth gan fod ei rôl mewn cymdeithas yng Nghymru'n bwysig iawn. Ac rwy'n credu ei fod yn gwneud hyn yn eithaf effeithiol o fewn y cyfyngiadau yr ydym wedi'u trafod. (Sefydliad trosfwaol)*

Cyfeiriodd y cynghorau gwirfoddol sirol at yr her o gyfleu barn eu haelodau. Dywedodd nifer ohonynt eu bod yn dymuno gwneud mwy ynghylch hyn, ac yn credu y dylent wneud, ond bod prinder amser ac adnoddau'n dylanwadu'n aml ar effeithiolrwydd wrth gyflenwi'r gwasanaeth allweddol hwn.

*Rwy'n credu bod hynny'n wirioneddol bwysig. Byddai'n dda gen i pe byddem yn gallu defnyddio mwy o adnoddau i gymryd rhan ym mhob grŵp y mae angen i ni gyfrannu iddo. Am fod cynifer o gyfleoedd ar hyn o bryd rhaid i ni ystyried pa rai y byddwn yn manteisio arnynt. Cyngor gwirfoddol sirol*

*Gallem wneud mwy. Oherwydd y strwythur sydd gennym a'r ffaith ein bod yn gorff i aelodau, mae'n bosibl nad ydym yn gwneud digon o ddefnydd o'r adnodd hwnnw – mae gennym 600 o aelodau felly mae'n bosibl y gallem ddefnyddio rhwydweithiau'n well. Cyngor gwirfoddol sirol*

| Hyfforddiant (yn cynnwys adnabod anghenion hyfforddi, darparu hyfforddiant a gwasanaethau hyfforddi) |
|---|

Roedd barn gymysg am bwysigrwydd darparu hyfforddiant gan seilwaith y trydydd sector. Credai rhai ei fod yn bwysig iawn, ond teimlai eraill nad oedd mor bwysig â gwasanaethau craidd eraill yr oedd angen eu cyflenwi. Barnwyd bod ansawdd yr hyfforddiant yn dda iawn ar y cyfan.

Awgrymwyd y gallai cynghorau gwirfoddol sirol gydweithio'n fwy effeithiol ar lefel ranbarthol i adnabod anghenion hyfforddi'r sector.

| Gwirfoddoli (yn cynnwys recriwtio, rhannu'r arferion gorau) |
|---|

Barnwyd bod y gwasanaeth craidd hwn yn bwysig iawn a'i fod yn cael ei gyflenwi'n effeithiol iawn, a chafwyd sylwadau bod gwirfoddoli wrth wraidd y sector. Unwaith eto, galwodd cynghorau gwirfoddol sirol am fwy o adnoddau er mwyn hybu gwirfoddoli'n fwy effeithiol.

| Darparu cyngor i'r sector (e.e. cyngor ynghylch ariannu, cyngor sefydliadol) |
|---|

Credwyd bod darparu cyngor i'r sector yn fusnes craidd i'r cynghorau gwirfoddol sirol a WCVA, a theimlai'r rhan fwyaf o ymatebwyr eu bod yn gwneud hyn yn dda iawn:

*Maen nhw'n rhagori ar hynny. (Sefydliad sy'n derbyn arian oddi wrth WCVA)*

Roedd barn gymysg am gyngor ynghylch ariannu: dywedodd un sefydliad nad yw'n derbyn arian oddi wrth WCVA ei fod wedi cael cyngor da iawn ynghylch ariannu. Fodd bynnag, roedd dau sefydliad sy'n derbyn arian wedi nodi rhai materion a oedd yn peri pryder ynghylch y cyngor a roddwyd:

*Mae'n bwysig ond mae'r cyngor yn gyffredinol iawn gan mwyaf. Mae eu cyngor ynghylch ariannu'n gyffredinol iawn. (Sefydliad sy'n derbyn arian oddi wrth WCVA)*

*Nid yw'r ddarpariaeth yn arbennig o dda, yn enwedig y cyngor ynghylch ariannu. Os yw'r sefydliad o fath penodol iawn, maen nhw'n barod iawn ar gyfer hynny, ond nid ydynt wedi bod mor effeithiol wrth ddelio â sefydliadau fel ein sefydliad ni sydd â throsiant mawr a llawer o incwm o gontractau ac sydd am arallgyfeirio. Ond mae'n effeithiol ar gyfer rhai sefydliadau. (Sefydliad sy'n derbyn arian oddi wrth WCVA)*

| Darparu cymorth i'r sector (e.e. cymorth i ymddiriedolwyr) |
|---|

Credwyd bod darparu cymorth i'r sector yn wasanaeth craidd hanfodol a bod y seilwaith yn ei ddarparu at safon uchel ar y cyfan.

| Cydweithio â'r sector cyhoeddus |
|---|

Roedd nifer yn credu bod cydweithio â'r sector cyhoeddus yn dod yn fwyfwy pwysig. Oherwydd y sefyllfa economaidd bresennol, y disgwyliad cynyddol y bydd y trydydd sector yn cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus a'r agenda ranbarthol yng Nghymru, mae'n hollbwysig bod y sector yn cydweithio'n effeithiol â'r sector cyhoeddus. Nododd nifer o ymatebwyr fod y sector wedi ymateb yn effeithiol i'r newid pwyslais hwn yn y blynyddoedd diwethaf a bod nifer o gysylltiadau â'r sector cyhoeddus wedi'u creu eisoes a'u bod yn gweithio'n dda.

*Mae hynny'n wirioneddol bwysig. Mae'n anodd yn yr hinsawdd economaidd bresennol ond mae'n hollbwysig o hyd o ran cadw'r trydydd sector ar yr agenda a sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r mathau o atebion yr ydym yn eu cynnig fel sector. Mae'n bwysicach byth yn yr hinsawdd bresennol ac mae'n cael ei wneud yn dda. (Sefydliad nad yw'n derbyn arian)*

## 4. Monitro perfformiad

### 4.1 Allbynnau ynteu Canlyniadau

Mae nifer y dangosyddion perfformiad allweddol sy'n cael eu casglu wedi gostwng yn ystod cyfnod y cytundeb partneriaeth presennol a'r consensws ymysg y rheini sy'n gysylltiedig yw y dylai'r duedd hon barhau.

Casgliad o allbynnau yw llawer o gynnwys yr adroddiad – nifer yr ymweliadau â gwefannau, nifer yr ymholiadau a gafwyd, nifer y cyrsiau hyfforddi a gynhaliwyd a nifer y cylchlythyrau a ddosbarthwyd etc. Er bod gwerth mewn rhai allbynnau, gan fod angen i'r sector wybod am faint ei waith, roedd bron pob un o'r rhanddeiliaid yn croesawu'r camau pellach i fabwysiadu trefniadau monitro perfformiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Dylid nodi bod WCVA wedi dechrau datblygu dull Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau, yn yr un modd â nifer o'r rhanddeiliaid a gymerodd ran yn yr ymchwil.

Nododd yr holl randdeiliaid y byddai cyflwyno dangosyddion perfformiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn her mewn nifer o feysydd: pennu dangosyddion priodol, sicrhau bod y rheini sy'n eu cofnodi yn eu deall, newid y ffordd y mae pobl yn gweithio a

chasglu data sy'n ymwneud â chanlyniadau, materion sy'n ymwneud â phriodoli ac achosiaeth a chipio'r wybodaeth berthnasol.

*Mae'n fater o fesur niferoedd yn hytrach nag ansawdd ar hyn o bryd. Rhaid i ni wneud mwy ynghylch ansawdd. Rydym yn cyflwyno dull Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau ac yn gobeithio y bydd yn gweithio, ond bydd yn newid mawr i'r staff wrth ddod i arfer ag ef. Ond rwy'n credu mai hwnnw yw'r llwybr y mae angen ei ddilyn, ond bod angen ei ddatblygu'n iawn. (Cyngor gwirfoddol sirol)*

*Rydym yn symud tuag at fesur canlyniadau ym mhob maes. Mae cofnodi ar sail canlyniadau'n beth da ar yr amod bod pobl yn ei ddeall. Bydd yn cymryd amser hir i bawb ddod i arfer ag ystyr canlyniadau, a rhoi'r gorau i hen ddulliau o gofnodi. Mae'n ffordd well o lawer o'i wneud……. Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i ganlyniadau fod yn gryno iawn ac yn glir iawn, gyda chyn lleied o le i ddehongli ag sy'n bosibl. (Sefydliad sy'n derbyn arian oddi wrth WCVA)*

Mae nifer o'r sefydliadau trosfwaol yn symud tuag at fabwysiadu dangosyddion perfformiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau a rhai enghreifftiau o'u gwaith ar hyn yw:

- Arolygon o fodlonrwydd cwsmeriaid
- Archwiliadau mewnol o berfformiad sefydliadau unigol sy'n aelodau e.e. effeithiolrwydd sefydliadol ac ansawdd y cyngor a gynigir etc.
- Gwerthusiadau annibynnol o brosiectau

Rhai awgrymiadau am agweddau ar y seilwaith y gellid eu monitro yw:

- Nifer y partneriaethau sydd wedi'u creu.
- Adborth gan wirfoddolwyr am eu profiad.
- Cadw gwirfoddolwyr
- Nifer y gwirfoddolwyr sydd wedi dod o hyd i waith
- Sut mae sefydliadau wedi tyfu / datblygu o ganlyniad i gymorth gan y seilwaith

## 5. Crynodeb ac Argymhellion

Ystyrir bod cytundeb partneriaeth y trydydd sector yn ffordd ddefnyddiol o bennu a diffinio'r gwahanol rolau yn lefelau seilwaith y trydydd sector yng Nghymru ac o bennu'r lefel fwyaf priodol ar gyfer gwahanol gyfrifoldebau.

Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod amcanion y cytundeb partneriaeth presennol yn parhau'n berthnasol ac yn addas i'w diben. Awgrymwyd newidiadau bach mewn rhai amcanion penodol ac mae'r rhain wedi'u nodi ym mhrif adran yr adroddiad hwn.

Rhai o'r diwygiadau mwy cyffredinol a awgrymwyd yw:

- mwy o gydnabyddiaeth i'r agwedd ranbarthol ar waith cynghorau gwirfoddol sirol
- mwy o wybodaeth am y ffordd y mae'r gwahanol agweddau ar y seilwaith yn cydweithio

Barnwyd bod yr holl wasanaethau craidd sy'n cael eu cyflenwi o dan gytundeb partneriaeth y trydydd sector yn bwysig a'u bod yn cael eu cyflenwi'n dda ar y cyfan. Mae'n ymddangos bod blaenoriaethau ar gyfer y seilwaith yn ymwneud yn bennaf â sicrhau ei fod yn cyfleu barn y sector yn fwy effeithiol a'i fod yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r sector.

Mae angen canolbwyntio yn y dangosyddion perfformiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn y cytundeb partneriaeth ar berfformiad sefydliadol neu berfformiad prosesau yn hytrach nag ar effaith y gwasanaethau a'r cymorth a ddarperir i'r cyhoedd.

Mae angen gofal wrth gyflwyno dangosyddion perfformiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer seilwaith y trydydd sector. Mae angen datblygu dangosyddion drwy ymgynghori â'r sector er mwyn sicrhau eu bod yn briodol, yn gymesur ac yn berthnasol. Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio'n agos â WCVA a chynghorau gwirfoddol sirol wrth ddatblygu dangosyddion ystyrlon.

Dylid cytuno i adolygu'r dangosyddion ar ôl cyfnod penodol i asesu eu perthnasedd a'r agweddau ymarferol ar gasglu data perthnasol.

**Atodiad A**

**Crynodeb o'r amcanion a'r newidiadau sydd wedi'u hawgrymu**

| **Amcanion WCVA** | **Newidiadau sydd wedi'u hawgrymu** |
|---|---|
| Hybu a hyrwyddo gwaith gan grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol; | Dileu'r cyfeiriad at 'lleol' gan fod y cynghorau gwirfoddol sirol yn gwneud hyn. |
| Dehongli a chyfleu barn a phryderon y sector gwirfoddol; | Dim newidiadau wedi'u hawgrymu. |
| Hybu a hyrwyddo gwaith gwirfoddol a budd gwirfoddolwyr; | Hyrwyddo ac argymell gwaith gwirfoddol a hyrwyddo budd gwirfoddolwyr. |
| Hyrwyddo cydlyniant a chynhwysiant cymunedol, a datblygu cyfalaf cymdeithasol; | Dim newidiadau wedi'u hawgrymu. |
| Datblygu a hybu mentrau newydd, yn enwedig mewn cysylltiad â'r blaenoriaethau yn *Cymdeithas Sifil, Gofod Sifil;* | Dileu'r cyfeiriad at *Cymdeithas Sifil, Gofod Sifil*. |
| Cynnal a gwella perfformiad ac effeithiolrwydd. | Mae angen dangos yn fwy eglur at bwy y mae'r amcan hwn yn cyfeirio. |

| **Amcanion Cynghorau Gwirfoddol Sirol** | |
|---|---|
| Darparu gwasanaethau cymorth i sefydliadau lleol (gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ynghylch ariannu, gwasanaethau ymarferol, gwasanaethau hyfforddi, cyngor sefydliadol); | Newid rhai o'r enghreifftiau i adlewyrchu'r galw cynyddol am gyngor ynghylch caffael a chomisiynu. |
| Adnabod pryderon a buddiannau cyffredin; | Dim newidiadau wedi'u hawgrymu. |
| Cynrychioli'r sector lleol a chyfleu ei bryderon i eraill; | Ystyried defnyddio'r un amcan ag ar gyfer WCVA: Dehongli a chyfleu barn a phryderon y sector gwirfoddol lleol. |
| Sefydlu a chynnal cysylltiadau ffurfiol rhwng y sector gwirfoddol, yr awdurdod lleol, y GIG a chyrff eraill; | Ystyried cynnwys 'gwella cysylltiadau ffurfiol' gan fod nifer ohonynt wedi'u sefydlu erbyn hyn. |
| Helpu i sefydlu gwasanaethau a mentrau newydd yn y sector gwirfoddol; | Ystyried cynnwys 'hybu partneriaethau a chydweithio'. |
| Cyrraedd safonau sefydliadol. | Mae angen eglurhad ynghylch pwy a beth y mae'r amcan yn cyfeirio atynt. |

| **Amcanion Canolfannau Gwirfoddol** | |
|---|---|
| Rhoi cymorth i ddatblygu a hyrwyddo amrywiaeth o gyfleoedd i wirfoddoli sydd o ansawdd da | Dim newidiadau wedi'u hawgrymu. |
| Darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gwirfoddolwr sydd ar gael i bawb i'r un graddau | Cynnwys 'hygyrchedd cyfleoedd i wirfoddoli' |
| Darparu gwasanaethau sy'n effeithlon, yn ddefnyddiol ac yn cynnig gwybodaeth | Dim newidiadau wedi'u hawgrymu. |
| Datblygu a chynnal safonau arferion da | Dim newidiadau wedi'u hawgrymu. |
| Monitro a chynnal adolygiad blynyddol o'u gwasanaethau. | Dim newidiadau wedi'u hawgrymu. |

**Atodiad B**
**Canllaw Cyf-weld**

**Adolygiad o Gytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector**
**Cyfweliadau â rhanddeiliaid – Canllaw trafod**

**Cyflwyniad (5 munud)**
Eich cyflwyno'ch hun a'ch gwaith ymchwil – y pwrpas yw cael eu barn am Gytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector â Llywodraeth Cymru. Egluro bod y Cytundeb Partneriaeth yn darparu cyllid craidd oddi wrth Lywodraeth Cymru i Gynghorau Gwirfoddol Sirol.

**EGLURWCH** fod y Cytundeb Partneriaeth presennol yn dod i ben ym mis Mawrth 2013, a bod Uned Trydydd Sector Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael adborth a sylwadau am y cytundeb partneriaeth gan randdeiliaid allweddol, ac y bydd hyn o gymorth wrth ddatblygu cytundeb newydd a gaiff ei gyflwyno ym mis Mawrth 2013, ac i sicrhau bod y cytundeb newydd yn addas i'w ddiben.

Bydd y cyfweliadau tua 60 munud o hyd a byddant yn cael eu recordio i ddibenion dadansoddi yn unig. Ni fydd unrhyw unigolion yn cael eu henwi yn yr adroddiad felly gallant ddatgan eu barn yn onest.

Os oes angen, eglurwch fod yr ymchwilydd yn gweithio yn yr adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a bod cydweithwyr ym maes polisi wedi gofyn iddo gynnal adolygiad o'r cytundeb partneriaeth i'w helpu mewn datblygiadau ar gyfer y dyfodol.

**SYLWER**: Gallai rhai o'r bobl a gyfwelir fod yn gyfarwydd â WCVA, canolfannau gwirfoddol a chynghorau gwirfoddol sirol. Gallai rhai fod yn gyfarwydd ag un rhan o'r seilwaith yn unig. Byddwch am fod yn glir yn y cyfweliad at ba ran o'r seilwaith y maent yn cyfeirio.

1. **Barn am amcanion y Cytundeb Partneriaeth**

Mae amcanion y cytundeb partneriaeth presennol wedi'u nodi'n glir yn y cytundeb.
***Sylwer: Anfonwyd yr amcanion at yr ymatebwyr cyn y cyfweliad a gofynnwyd iddynt ystyried a ydynt yn berthnasol o hyd ac yn addas i'w diben. (Gweler Atodiad 1)***

**AR GYFER POB PWYNT BWLED, GOFYNNWCH**: A ydych yn credu bod hyn yn berthnasol o hyd? A ydych yn credu ei fod yn addas i'w ddiben?
Os ydych, pam rydych yn dweud hynny?
Os nad ydych, pam? Beth fyddai'n ei newid?

**Rôl WCVA**

- Hybu a hyrwyddo gwaith gan grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol;
- Dehongli a chyfleu barn a phryderon y sector gwirfoddol;
- Hybu a hyrwyddo gwaith gwirfoddol a budd gwirfoddolwyr;
- Hyrwyddo cydlyniant a chynhwysiant cymunedol, a datblygu cyfalaf cymdeithasol;
- Datblygu a hybu mentrau newydd, yn enwedig mewn cysylltiad â'r blaenoriaethau yn *Cymdeithas Sifil, Gofod Sifil;*
- Cynnal a gwella perfformiad ac effeithiolrwydd.

**Rôl Cynghorau Gwirfoddol Sirol**

- Darparu gwasanaethau cymorth i sefydliadau lleol (gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ynghylch ariannu, gwasanaethau ymarferol, gwasanaethau hyfforddi, cyngor sefydliadol);
- Adnabod pryderon a buddiannau cyffredin;
- Cynrychioli'r sector lleol a chyfleu ei bryderon i eraill;
- Sefydlu a chynnal cysylltiadau ffurfiol rhwng y sector gwirfoddol, yr awdurdod lleol, y GIG a chyrff eraill;
- Helpu i sefydlu gwasanaethau a mentrau newydd yn y sector gwirfoddol;
- Cyrraedd safonau sefydliadol.

**Rôl Canolfannau Gwirfoddol**

- Rhoi cymorth i ddatblygu a hyrwyddo amrywiaeth o gyfleoedd i wirfoddoli sydd o ansawdd da
- Darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gwirfoddolwr sydd ar gael i bawb i'r un graddau
- Darparu gwasanaethau sy'n effeithlon, yn ddefnyddiol ac yn cynnig gwybodaeth
- Datblygu a chynnal safonau arferion da
- Monitro a chynnal adolygiad blynyddol o'u gwasanaethau.

Beth yw'ch barn am yr amcanion yn gyffredinol? YSGOGIAD: A ydyn nhw'n cynnwys yr holl bwyntiau perthnasol yn y seilwaith? Os nad ydynt, beth sydd ar goll?

Os nad ydynt yn berthnasol – pa rai y byddech yn eu dileu a pham?

2. **Cyflawni amcanion y Cytundeb Partneriaeth**

Egluro ein bod yn symud ymlaen yn awr i drafod y ffordd y mae'r trydydd sector yn cyflawni amcanion y cytundeb partneriaeth.

***SYLWER: Gofynnwyd i ymatebwyr roi sgôr allan o 10 am y rhain ar sail eu pwysigrwydd ac effeithiolrwydd wrth eu cyflawni. (Gweler Atodiad 2)***

Pa sgôr yr oeddent wedi'i rhoi i bob un o'r gwasanaethau craidd canlynol ar sail pwysigrwydd?

a. Adnabod anghenion cyfnewidiol y sector
b. Gwasanaethau gwybodaeth (yn cynnwys lledaenu gwybodaeth)
c. Ymateb i ymgyngoriadau
d. Cyfleu barn y sector
e. Hyfforddiant (yn cynnwys adnabod anghenion hyfforddi, darparu hyfforddiant a gwasanaethau hyfforddi)
f. Gwirfoddoli (yn cynnwys recriwtio, rhannu'r arferion gorau)
g. Darparu cyngor i'r sector (e.e. cyngor ynghylch ariannu, cyngor sefydliadol)
h. Darparu cymorth i'r sector (e.e. cymorth i ymddiriedolwyr)
i. Cydweithio â'r sector cyhoeddus

Pam y maent wedi rhoi'r sgorau hynny iddynt?

Pa sgôr yr oeddent wedi'i rhoi ar sail effeithiolrwydd wrth eu cyflenwi? Pam y maent wedi rhoi'r sgorau hynny iddynt?
**HOLWCH ymhellach os oes anghysondeb rhwng y sgorau – yn enwedig y rheini sy'n uwch am bwysigrwydd ac yn is am effeithiolrwydd wrth gyflenwi.**

Trafodwch unrhyw faterion a godwyd ynghylch pob un o'r gwasanaethau uchod – beth sydd wedi gweithio'n dda / ddim cystal. Pam / nad yw?
Beth yw'r rhwystrau sy'n atal seilwaith y trydydd sector rhag cyflenwi'r rhain?

Pa ddarpariaethau y mae angen eu gwneud yn y cytundeb partneriaeth nesaf i sicrhau bod seilwaith y trydydd sector yn gallu cyflenwi'r uchod?
A oes unrhyw bethau allweddol eraill i'w cyflawni y dylid eu cynnwys yn y cytundeb partneriaeth newydd?

### 3. Barn am y wybodaeth monitro a ddarperir

**GOFYNNWCH i WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, Sefydliadau Gwirfoddol sy'n derbyn arian oddi wrth WCVA:**
Beth yw eu barn am y wybodaeth monitro sy'n cael ei darparu i Lywodraeth Cymru?

A yw'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn berthnasol?

Os nad yw, pa wybodaeth y dylid ei chasglu a sut y dylid ei chyflwyno?

Mae rhai'n credu y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddangosyddion perfformiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau – beth yw eu barn am hyn? A fyddai'r rhain yn fesuriadau mwy priodol? Pa ganlyniadau a ddylai gael eu mesur yn eu barn nhw?

Rhai awgrymiadau am fathau o ddangosyddion perfformiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau yw:

- Bodlonrwydd ar y ffordd o ddelio ag ymholiadau
- Tystiolaeth bod sefydliadau'n gweithio'n well o ganlyniad i gymorth gan y seilwaith
- Tystiolaeth o newid a gwelliannau mewn polisïau neu wasanaethau o ganlyniad i sylwadau oddi wrth y seilwaith

Beth yw eu barn am y rhain?

Pa mor hawdd/anodd fyddai casglu'r wybodaeth berthnasol ar gyfer dangosyddion o'r fath?

**GOFYNNWCH i NCVO, SCVO, Y Loteri Fawr, Canolfan Cydweithredol Cymru, sefydliadau gwirfoddol nad ydynt yn derbyn arian oddi wrth WCVA:**
Sut maent yn monitro perfformiad / effaith y gwaith gan eu sefydliad?
Sut mae'r cyrff sy'n eu hariannu'n monitro eu perfformiad?

Pa mor aml y maent yn monitro eu perfformiad?
Beth maent yn ei fesur?
Pam maent yn mesur y pethau hynny'n benodol
A ydynt yn defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol? Os ydynt, beth yw'r rhain?
A ydynt yn wynebu unrhyw anawsterau wrth gasglu'r wybodaeth angenrheidiol? Os ydynt, sut maent yn delio â'r heriau hyn?

**Atodiad C**
**Tasg cyn y Cyfweliad**

**Adolygiad o Gytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector â Llywodraeth Cymru. Tasg cyn y Cyfweliad**

Diolch i chi am gytuno i gymryd rhan mewn cyfweliad dros y ffôn i helpu i ddatblygu cytundeb partneriaeth newydd ar gyfer y trydydd sector. Mae'r Cytundeb Partneriaeth yn darparu cyllid craidd oddi wrth Lywodraeth Cymru i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol. Er mwyn hwyluso'r drafodaeth yn y cyfweliad, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn cwblhau'r ddwy dasg isod. Drwy ystyried y rhain ymlaen llaw, bydd yn haws cadw'r drafodaeth o fewn terfynau a bydd o gymorth i ni gadw at yr apwyntiad awr o hyd.

**Tasg 1: Pa mor Berthnasol yw amcanion Cytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector**
Mae amcanion y cytundeb partneriaeth presennol a phwy sy'n gyfrifol am eu cyflawni wedi'u nodi'n glir yn y cytundeb.

**Ystyriwch a yw'r amcanion canlynol yn y cytundeb partneriaeth presennol yn dal yn berthnasol ac yn addas i'w diben.**

**<u>Rôl WCVA</u>**

- Hybu a hyrwyddo gwaith gan grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol;
- Dehongli a chyfleu barn a phryderon y sector gwirfoddol;
- Hybu a hyrwyddo gwaith gwirfoddol a budd gwirfoddolwyr;
- Hyrwyddo cydlyniant a chynhwysiant cymunedol, a datblygu cyfalaf cymdeithasol;
- Datblygu a hybu mentrau newydd, yn enwedig mewn cysylltiad â'r blaenoriaethau yn *Cymdeithas Sifil, Gofod Sifil;*
- Cynnal a gwella perfformiad ac effeithiolrwydd.

**<u>Rôl Cynghorau Gwirfoddol Sirol</u>**

- Darparu gwasanaethau cymorth i sefydliadau lleol (gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ynghylch ariannu, gwasanaethau ymarferol, gwasanaethau hyfforddi, cyngor sefydliadol);
- Adnabod pryderon a buddiannau cyffredin;
- Cynrychioli'r sector lleol a chyfleu ei bryderon i eraill;
- Sefydlu a chynnal cysylltiadau ffurfiol rhwng y sector gwirfoddol, yr awdurdod lleol, y GIG a chyrff eraill;
- Helpu i sefydlu gwasanaethau a mentrau newydd yn y sector gwirfoddol;
- Cyrraedd safonau sefydliadol.

**<u>Rôl Canolfannau Gwirfoddol</u>**

- Rhoi cymorth i ddatblygu a hyrwyddo amrywiaeth o gyfleoedd i wirfoddoli sydd o ansawdd da
- Darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gwirfoddolwr sydd ar gael i bawb i'r un graddau
- Darparu gwasanaethau sy'n effeithlon, yn ddefnyddiol ac yn cynnig gwybodaeth
- Datblygu a chynnal safonau arferion da
- Monitro a chynnal adolygiad blynyddol o'u gwasanaethau.

**Tasg 2: Cyflawni amcanion Cytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector**

Rhowch sgôr rhwng 1 a 10 am bob un o'r gwasanaethau craidd canlynol sydd yn y Cytundeb Partneriaeth ar sail **pwysigrwydd** (lle mae 1 yn golygu 'ddim yn bwysig o gwbl' a 10 yn golygu 'pwysig iawn') ac ar sail **effeithiolrwydd wrth gyflenwi** (lle mae 1 yn golygu 'nid yw'n cael ei gyflenwi'n effeithiol' a 10 yn golygu 'yn cael ei gyflenwi'n effeithiol iawn')

| | **Pwysigrwydd** | **Effeithiolrwydd wrth gyflenwi** |
|---|---|---|
| **Adnabod anghenion cyfnewidiol y sector** | | |
| **Gwasanaethau gwybodaeth** (yn cynnwys lledaenu gwybodaeth) | | |
| **Ymateb i ymgyngoriadau** | | |
| **Cyfleu barn y sector** | | |
| **Hyfforddiant** (yn cynnwys adnabod anghenion hyfforddi, darparu hyfforddiant a gwasanaethau hyfforddi) | | |
| **Gwirfoddoli** (yn cynnwys recriwtio, rhannu'r arferion gorau) | | |
| **Darparu cyngor i'r sector** (e.e. cyngor ynghylch ariannu, cyngor sefydliadol) | | |
| **Darparu cymorth i'r sector** (e.e. cymorth i ymddiriedolwyr) | | |
| **Cydweithio â'r sector cyhoeddus** | | |